# Cofnodion cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol PCS y Senedd a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2022

Yn bresennol: Mike Hedges AS, Ryland Doyle (Staff Cymorth AS), Marianne Owens (PCS), Jayne Smith (PCS), Sian Wiblin (PCS).

Ymddiheuriadau: Heledd Fychan AS, Sian Boyles (PCS), Darren Williams (PCS).

**Ymgyrch genedlaethol PCS ynghylch cyflogau a phensiynau**

Roedd PCS yng nghanol pleidlais ymgynghorol genedlaethol o'i holl aelodau sector cyhoeddus, a oedd i fod i ddod i ben ar 21 Mawrth, ynghylch atal cyflogau gan y Trysorlys yn wyneb yr argyfwng costau byw a methiant llywodraeth y DU i anrhydeddu argymhelliad y broses brisio annibynnol y dylid lleihau cyfraniadau pensiwn aelodau'r cynllun. Byddai canlyniad y bleidlais yn rhoi syniad ynghylch parodrwydd aelodau i weithredu'n ddiwydiannol, pe bai angen, ac fe allai arwain at bleidlais statudol naill ai ar draws holl aelodaeth y sector cyhoeddus neu ar feysydd penodol.

Ailddatganodd Mike ei gydymdeimlad tuag at amcanion yr undeb a'i barodrwydd i ddarparu cefnogaeth pe bai'r ymgyrch yn arwain at weithredu diwydiannol.

**Y wybodaeth ddiweddaraf am gyflogau sector datganoledig Cymru**

Roedd PCS wedi anfon at y Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, hawliad tâl ar gyfer 2022/23, gan gwmpasu Llywodraeth Cymru ei hun a nifer o is-gyrff sy'n cyflogi, a oedd yn ceisio mynd i'r afael â'r annhegwch cyflog o fewn sector datganoledig Cymru trwy godi'r gwastad i'r cyfraddau cyflog gorau sydd ar gael, yn ogystal â chwilio am daliad costau byw a gwelliannau o ran oriau gwaith a gwyliau blynyddol. Ni chafwyd ymateb hyd yma ond pan gyflwynodd PCS hawliad tebyg y flwyddyn flaenorol, roedd y Gweinidog wedi gwrthod cymryd rhan yn y broses bargeinio un bwrdd, traws-gyflogwr roedd yr undeb yn ceisio a dyfarnwyd cyflogau fesul cyflogwr yn yr achos hwnnw. Fodd bynnag, ar yr un pryd, yn y fforwm partneriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i chyrff a noddir, roedd swyddogion wedi ymrwymo i geisio arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol i godi lleiafswm y bandiau cyflog ar gyfer y cyrff hyd braich amrywiol i leiafswm y graddau cyfatebol o fewn Llywodraeth Cymru ei hun (sydd â'r lefelau cyflog uchaf). Roedd cyfarfod ar 1 Chwefror wedi awgrymu y byddai ymdrech ar y cyd i roi effaith i'r ymrwymiad hwn ond awgrymwyd mewn cyfarfod pellach a gynhaliwyd ar fore'r dydd y cynhaliwyd cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol mai ychydig iawn o gynnydd oedd wedi'i wneud, gan achosi pryder, ac roedd un cyflogwr mawr wedi'i eithrio am resymau nad oedd yn gwbl glir.

Gofynnodd Mike i PCS ysgrifennu ato yn nodi ei bryderon, er mwyn iddo allu cymryd y mater i fyny.

**Materion diogelwch yn y gweithle yn ymwneud â Covid-19:**

**Anghydfod DVLA**: Nid oedd pleidlais PCS i adnewyddu ei fandad gweithredu diwydiannol wedi cyrraedd y trothwy angenrheidiol o 50% ac roedd yr undeb bellach yn archwilio ein hopsiynau diwydiannol pellach, gan gynnwys pleidleisio o bosibl ar sail fwy targedig. Yn y cyfamser, roedd yr undeb yn ceisio datrys yr anghydfod ar sail y cyfaddawd a gytunwyd mewn trafodaethau ond heb ei gadarnhau eto. Roedd PCS hefyd wedi ysgrifennu at brif weithredwr a chyfarwyddwr adnoddau dynol y DVLA, gan eu hannog i gyflwyno ystod o fesurau i gadw staff yn ddiogel rhag ton ddiweddaraf y feirws a phwysleisio'n arbennig yr angen i leihau nifer y bobl ar y safle.

*Bygythiad posib i swyddi yn Adran Cydwasanaethau yr Adran Drafnidiaeth, Abertawe*

Roedd bygythiad posib hefyd wedi codi i swyddi'r 180 o staff sy'n gweithio i Arvato ym Mro Abertawe, gan ddarparu Cydwasanaethau dan gontract i'r Adran Drafnidiaeth (DfT) fel talu biliau, cyflogau a chynnal cofnodion ariannol i'r Adran Drafnidiaeth. Roedd Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Strategaeth Cydwasanaethau newydd ar gyfer yr holl wasanaeth sifil, ac roedd hyn wedi codi amheuon ynghylch bodolaeth barhaus ac felly cyflogaeth staff yng Nghanolfan Cydwasanaethau Abertawe. Roedd yr undeb yn gofyn am eglurhad brys gan yr Adran Drafnidiaeth a'r gwasanaeth sifil ehangach ynghylch dyfodol y safle; yn ddibynnol ar yr ymateb hwnnw, efallai y bydd angen cefnogaeth ASau ar gyfer ymgyrch i amddiffyn swyddi yn Abertawe.

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau:** Mae'r PCS yn parhau i fod â phryderon difrifol o ran y ffordd gyflym ac anhyblyg y mae'r DWP yn gwthio staff i ddychwelyd i'r gweithle. Roedd Ysgrifennydd Parhaol yr Adran, Peter Schofield, ar ôl nodi nad oedd deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithio gartref yng Nghymru bellach, dim ond canllawiau, wedi anfon cyfarwyddyd blanced i gael staff yn ôl i'r gweithle, ac o ganlyniad roedd yr Adran yn cyflwyno gweithio hybrid, lle'r oedd disgwyl i staff dreulio o leiaf 40% o'u hamser gwaith yn y gweithle. Mae'n debyg bod yr hyb newydd yn Nhrefforest (Tŷ Taf) ar restr 10 uchaf y DWP o ran nifer yr achosion Covid positif, felly roedd staff oedd wedi bod yn gweithio o adref yn ddealladwy yn bryderus nad oedden nhw'n cael dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd yr undeb yn ceisio mynd i'r afael â'r mater drwy drafodaethau lleol.

**Mater lwfansau Archwilio Cymru**

Roedd PCS yn pryderu bod Archwilio Cymru wedi nodi ei barodrwydd, fel dewis olaf, i ddefnyddio'r bygythiad o ddiswyddo ac ailgyflogi er mwyn gorfodi staff i dderbyn colli lwfans teithio, yr oedd aelodau PCS wedi'i wrthod mewn pleidlais yn dilyn methiant i ddod i gytundeb drwy ymgynghoriad. Roedd yr undeb wedi egluro bod diswyddo ac ailgyflogi yn arfer annerbyniol nad oes lle iddo mewn cymdeithas fodern ac sy'n cael ei wrthwynebu'n gryf gan Lywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o Aelodau o'r Senedd. Nid yw'r rheolwyr wedi bod yn barod i dynnu'r bygythiad yn ôl, fodd bynnag, gan egluro eu bod wedi derbyn cyngor y gallent fod yn agored i her gyfreithiol pe baent yn gorfodi'r newidiadau, rhywbeth y byddwn ni'n ystyried yn well. Er y gobaith yw y bydd yr holl staff yn derbyn y telerau newydd yn y pen draw, byddai PCS yn gofyn am gymorth gan ASau pe bai Archwilio Cymru yn cyflawni ei fygythiad yn erbyn unrhyw rai allai wrthod.

Fe wnaeth Mike ailddatgan ei wrthwynebiad i ddiswyddo ac ailgyflogi ac fe gynigodd ei gefnogaeth wrth fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Y wybodaeth ddiweddaraf am gontractau allanoli Chwaraeon Cymru**

Rhoddodd PCS y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp ar gynnig Chwaraeon Cymru i allanoli'r Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol ym Mhlas Menai, Bangor i ddarparwr allanol. Roedd yr undeb yn gwrthwynebu hyn mewn egwyddor ond fe gytunodd i gwrdd â'r rheolwyr yn rheolaidd wrth i'r broses symud ymlaen, er mwyn parhau i fod yn wybodus am y cynigion ac i ddylanwadu arnyn nhw mewn ffordd gadarnhaol lle bynnag y bo modd, ond gan gadw'r hawl i ymgyrchu yn erbyn y canlyniad. Roedd y caffaeliad ffurfiol wedi dechrau ar 21 Ionawr, a gwahoddwyd y sefydliadau partner posibl i gofrestru eu diddordeb erbyn 28 Chwefror, a disgwylir i'r broses ddod i ben yn gynnar yn 2023.

Mynegodd Mike ei wrthwynebiad i allanoli ac fe gynigodd ei gefnogaeth barhaus ar y mater hwn.

**Mater i Ymadael Gwirfoddol Llywodraeth Cymru**

Rhoddodd PCS ddiweddariad ar y sefyllfa lle'r oedd nifer o staff Llywodraeth Cymru wedi bod o dan anfantais ariannol trwy gymryd Rhyddhad Cynnar Gwirfoddol yn 2017 o dan delerau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil a gafodd eu dyfarnu'n anghyfreithlon wedyn; roedd Llywodraeth y DU wedi cael ei gorfodi

i droi'n ôl i'r termau cynharach, mwy hael, ond roedd Llywodraeth Cymru wedi gwrthod gwneud yn iawn am y diffyg o ran y rhai yr effeithiwyd arnynt. Roedd Llywodraeth Cymru bellach wedi ysgrifennu at PCS gyda chynnig o £500 y person, yr oedd yr undeb yn ei ystyried yn annigonol, wrth ystyried y credir bod rhwng £10,000 a £27,000 yn ddyledus i bob un yr effeithiwyd arnynt. Ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, roedd yr undeb felly wedi annog yr aelodau dan sylw yn gryf i wrthod y cynnig ac yn dilyn camau cyfreithiol yn erbyn Llywodraeth Cymru. Dywedodd PCS y byddai'n croesawu sylwadau gan Aelodau o’r Senedd i Lywodraeth Cymru i wneud cynnig mwy realistig a thrwy hynny osgoi'r hyn allai fod yn achos cyfreithiol hirfaith a chostus.

**Goblygiadau agenda 'codi'r gwastad' Lywodraeth y DU i Gymru**

Rhannodd PCS y pryderon eang am yr oblygiadau o ran datganoli democrataidd o ganlyniad i agenda 'codi'r gwastad' llywodraeth San Steffan, lle mae gweinidogion y DU yn cynnig buddsoddiad ar lefel leol gan ddiystyru Llywodraeth Cymru trwy wneud penderfyniadau gwario mewn meysydd sydd o dan ei rheolaeth, ac eisiau gweithio gydag ASau i ailddatgan goruchafiaeth llywodraeth ddatganoledig ac ymgyrchu i sicrhau cyllid digonol i Gymru wrth San Steffan. Cafwyd trafodaeth fer o gwmpas y pwyntiau hyn.